

Tasg 1

Byw a bod gyda lloerennau

Edrychwch ar fap o Gymru sy'n dangos yr ardal lle rydych chi'n byw. Defnyddiwch eich lloeren bersonol i ysgrifennu cyfarwyddiadau sut i gyrraedd o'ch cartref i'r mannau hyn:

- pentref neu dref yn dechrau gyda Llan
- pentref neu dref yn dechrau gyda Caer
- pentref neu dref yn dechrau gyda Bryn
- pentref neu dref yn dechrau gydag Aber
- pentref neu dref yn dechrau gyda Pant

Cofiwch ddefnyddio berfau gorchmynnol, e.e. Ewch, Trowch, Dilynwch.

Cofiwch beidio defnyddio gormod o ansoddeiriau a chadwch eich brawddegau'n gryno ac yn fyr.

Byddwch yn glir a pheidiwch wastraffu geiriau.

Cofiwch ddilyn y ffordd orau neu gyflymaf i gyrraedd pob un.

Cofiwch sôn am droi i'r dde neu'r chwith, neu fynd yn syth ymlaen.

Cofiwch nodi enw'r stryd neu'r ffordd. Efallai mai rhif yn unig fyddan nhw.

Cofiwch nodi unrhyw fan o ddiddordeb y byddwch chi'n eu pasio wrth gyrraedd y pentref neu dref.

Cofiwch ddweud pan fyddwch chi wedi cyrraedd yn ddiogel.

Nesaf, atebwch y cwestiynau canlynol:

- pa un yw'r lle agosaf at eich cartref chi?
- pa un yw'r lle pellaf o'ch cartref chi?
- pa un yw'r lle agosaf at lan y môr?
- sawl un o'r llefydd yma rydych chi wedi ymweld â nhw?
- ym mha sir mae'r llefydd rydych chi wedi eu dewis?